

Pris: 50c

Papur Pawb

Hydref 2013 Rhif 392



tud 3
Pobl a Phethe

tud 4/5/8 a 9
Ysgolion

tud 11
Y Gair Olaf

tud 12
Chwaraeon

System rhybuddio rhag llifogydd i Dal-y-bont

Bron i ddeunaw mis wedi i Dal-y-bont ddioddef y llifogydd gwaethaf ers cyn cof, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y byddant yn gosod system rybuddio newydd ar yr afonydd Ceulan a Leri.

Golyga hyn y bydd rhybudd ar ffurf neges destun a galwad ffôn yn cael eu hanfon at bobl sydd wedi cofrestru am y gwasanaeth pan fydd yr afonydd yn beryglus o uchel.

Mae systemau tebyg wedi bod yn eu lle ar afonydd eraill yng ngogledd Ceredigion a Phowys, megis y Ddyfi a'r Rheidol, ers rhai blynnyddoedd.

Ond mae'r rhybuddion sydd yn cael eu hanfon allan pan fo'r Ddyfi a'r Rheidol yn uchel yn cyrraedd yn rhy hwyr ar gyfer Tal-y-bont.

Daeth hyn i'r amlwg ym mis Awst eleni pan gafwyd glaw trwm iawn a rhybuddion o lifogydd.

Roedd hi'n rai oriau wedi i'r glaw beidio, ac i'r ddwy afon godi a dechrau gostwng drachefn erbyn i'r rhybuddion cael eu hanfon at bobl Tal-y-bont.

Y tirwedd sydd yn gyfrifol am hyn. Yn wahanol i'r Ddyfi a'r Rheidol, mae'r Ceulan a'r Leri yn lifo drwy ddyffrynnoedd troellog a chul.

Canlyniad hyn yw bod yr afonydd yn codi'n gyflym ar adegau o law trwm a'r dŵr yn llifo o'r mynydd i bentref Tal-y-bont yn llawer cyflymach na mewn dyffrynnoedd mwy.

A dyna paham fod angen system rybuddio arbennig ar gyfer preswylwyr Tal-y-bont.

Er mwyn casglu'r wybodaeth angenrheidiol bydd dau fesurydd yn cael eu gosod ar bontydd y Ceulan a'r Leri yng nghanol y pentre', a thrydydd ger Plas y Mynydd.

Yn achos Tal-y-bont, ac oherwydd bod y ddwy afon yn ymateb mor gyflym pan fydd hi'n bwrw glaw, bydd y rhybuddion yn cael eu hanfon ddwy awr gyfan cyn i'r afon gyrraedd ei huchafbwynt.

Y gobaith yw y bydd hyn yn rhoi digon o amser i'r bobl sydd mewn perygl o ddioddef llifogydd wneud y paratodau angenrheidiol ac i weithredu'r Cynllun Llifogydd (gweler isod).

Yn ôl Cyfoeth Naturiol Cymru y bwriad yw gosod yr offer yn ei le yn fuan yn y flwyddyn newydd, a'r gobaith yw y bydd y system yn weithredol erbyn Pasg 2014.

Os am wybod mwy am rybuddion llifogydd neu gofrestru am y gwasanaeth rhybuddio, ewch i <http://cyfoethnaturiolcymru.gov.uk>.



Mick Fothergill â chopi o'r Cynllun Llifogydd

Cynllun Llifogydd Tal-y-bont

Mae'r fersiwn gyntaf o Gynllun Llifogydd Tal-y-bont wedi ei gwblhau a'i gyflwyno i Gyngor Cymuned Ceulanamaesmawr.

Lluniwyd y cynllun gan aelodau o grŵp Llifogwyr Tal-y-bont, sef y bobl a ddioddefodd yn sgil llifogydd Mehefin 2012.

Mae'n cynnwys gwybodaeth am y tai sy'n debygol o ddioddef llifogydd, manylion cyswllt y bobl sydd yn byw yn y tai hynny, a'r camau i'w cymryd petai'r pentref yn dioddef llifogydd unwaith eto.

Yn ogystal a'r bobl sydd yn byw yn agos at yr afonydd, mae nifer o bobl o rannau eraill o'r pentref wedi eu cynnwys yn y cynllun ac yn barod i wirfoddoli petai angen.

Mae copïau o'r cynllun gyda Thîm Rheoli Llifogydd De Orllewin Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cyngor Sir Ceredigion a'r Gwasanaethau Brys, a chyflwynwyd copi i'r Cyngor Cymuned gan gydlynnydd grŵp y Llifogwyr, Mick Fothergill, ar y 30ain o Fedi.

Mi fydd y Cynllun Llifogydd ar gael ar-lein maes o law. Mae yna fwriad hefyd i gynnal ymarfer gyda'r gwahanol asiantaethau a gwirfoddolwyr er mwyn galluogi pawb i ymgfarwyddo a'r cynllun.

Papur Pawb

Golygydd Cyffredinol:	Gwyn Jenkins Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion golygydd@papurpawb.com Cysyllter â golygyddion y mis	(01970) 832560
Tynnu lluniau:		
Tal-y-bont:	GOHEBYDDION LLEOL Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais	832592 832438 832483 832498 832566 832230 832429 (01654) 781260 (01654) 781324
Eglwysfach/Ffwrnais:	CYMDEITHAS PAPUR PAWB Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones	832093 832760 832433 832093 832448 832076
Cadeirydd:		
Is-gadeirydd:		
Ysgrifennydd:		
Trysorydd:		
Tanysgrifiadau:		
Hysbysebion:		
Plygu'r Papur:		
Dosbarthwyr:		

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

Coffáu y rhai a fu farw mewn rhyfeloedd

Ar 9 Ebrill 1965, lladdwyd yr Is-gapten John A. C. Morgan MBE o Fferm Tanrallt, Tal-y-bont, mewn rhyfel ym Morneo.

Rhwng 1962 ac 1966, bu rhyfel ansyddogol ar yr ynys rhwng lluoedd comiwnyddol Indonesia a gwladwriaeth newydd Malaysia. Cefnogodd Prydain y wladwriaeth newydd gan ddanfôn rhai milwyr i ymuno â lluoedd o Awstralia a Seland Newydd.

Yn Nanga Gaat, Sarawak - yng nghanol jyngl Borneo - y lladdwyd John Morgan mewn damwain wrth i'w hofrennydd esgyn. Roedd eisoes wedi derbyn gwobr MBE am ei waith achub â hofrennydd ym Mehefin 1957 adeg ymgyrch Suez. Fodd bynnag, roedd yr hofrennydd yr oedd yn ei yrru ym Morneo eisoes wedi cael ei ddifoddi yng nghynt yn y rhyfel, gyda'r lleoliad anghysbell yn golygu nad oedd modd trwsio'r hofrennydd yn ddigonol. Mae'n debyg mai dyma achosodd y ddamwain.

Amlosgwyd John Morgan yn Singapore, ac mae'n cael ei goffáu ar gofeb ym mynwent Kranji yno.

Tynnwyd yr hanes uchod at sylw Pwyllgor Neuadd Goffa Tal-y-bont yn sgil erthygl yng nghylchlythyr yr Ardwynian (astudiodd John Morgan yno rhwng 1943 a 1948). Mae gan y Neuadd gofebion i goffáu'r rhai o'r dalgylch a gollodd eu bywydau yn ystod y ddau Ryfel Byd. Fodd bynnag, wedi clywed am hanes John Morgan, teimlad y Pwyllgor yw y dylid ystyried y posibilrwydd o godi cofeb ychwanegol i goffáu'r rhai a fu farw mewn rhyfeloedd eraill.

Wedi trafod gyda gweddwr John Morgan - Buddug (Lewis), a oedd hefyd yn dod o'r ardal - penderfynwyd gwneud cais trwy Bapur Pawb am wybodaeth ynghylch eraill y dylid eu goffáu ar y gofeb newydd.

Gwahoddor darllenwyr Papur Pawb i gysylltu gyda Chadeirydd Pwyllgor Rheoli'r Neuadd Goffa, Bleddyn Huws (832448) neu gydag aelod arall o'r Pwyllgor, os oes ganddynt unrhyw wybodaeth ynghylch eraill o'r ardal a gollodd eu bywydau mewn rhyfel.

Ffair y Neuadd

Dydd Sadwrn, 30 Tachwedd
Neuadd Goffa Tal-y-bont
2.00 o'r gloch
Mynediad £1
(plant ysgol gynradd am ddim)

Am baned a rafflau,
A chwmni a sgwrs,
Anrhegion, Teganau...
Awn i'r Neuadd, wrth gwrs!

Sêl o Lyfrau Cymraeg

Dros 1000 o lyfrau ar werth
yn Y Tabernacl, Machynlleth
ar Dydd Mercher 30 Hydref
10.00 - 3.30 y prynhawn
Tuag at Apel y Taneri



DIGWYDDIADAU MORLAN:

- **Pigion** – arddangosfa cyfrwng cymysg gan Ann Thomas (hyd at 24 Hydref)
- **Cristnogaeth 21 yn Morlan** (7.30, 9 Hydref) – *Byw'r Cwestiynau*
- **Gŵyl Lyfrau Morlan** (15-16 Tachwedd) – yn cynnwys Parti i Ddathlu Rala Rwdins yn 30 oed a sesiynau gyda Dafydd John Pritchard, Francesca Rhydderch, Eigra Lewis Roberts a Hywel Gwynfryn

Manylion llawn ar wefan Morlan:

www.morlan.org.uk

CROESO CYNNES I BAWB!

Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH
01970-617996; morlan.aber@gmail.com

Dyddiadur

Hydref

- Bethel 10** - Cwrdd
Diolchgarwch y Plant
(Undebol)
Nasareth Oedfa'r Ofalaeth
Rehoboth Oedfa'r Ofalaeth
Eglwys Dewi Sant 11 -
Cymun Bendigaidd
- Diwrnod Shwmae/Sumae!**
Cofiwch ddechrau bob sgwrs
gyda "Shwmae!"
- Neuadd Goffa **Sefydliad y Merched** - Cyfarfod
Blynnyddol (Bwffe Cynhaeaf)
- Bethel 10** - Helpu Haiti
(Elenid Jones- Trefnydd y
De o Apêl yr Annibynnwyr)
Cinio Cawl i ddilyn yn y
Neuadd Goffa
Nasareth
Rehoboth 2 - Parch Elwyn
Pryse
Eglwys Dewi Sant 11 -
Boreol Weddi
- Neuadd Goffa **Merched y Wawr** 7.30 Addurno
Cacennau (Shân James)
- Neuadd Goffa** Clwb
Ffermwyr Ifanc - Ymarfer
Eisteddfod
- Clwb Nos Wener, Llew Du**
8yh, John Ogwen a
Maureen Rhys yn
perfformio 'Annwyl Kate,
Annwyl Saunders'
(Tocynnau £5)
- Bethel 10** - Gweinidog (C)
Nasareth
Rehoboth 10 - Gwyn
Davies
Eglwys Dewi Sant 11 -
Gwasanaeth Teuluol

Fflat

fodern, cynllun agored
ar ddau lawr
ar gael yng nghanol Talybont;
£100 yr wythnos + costau;
ffoniwch Garmon
ar 07821 083 989

- Neuadd Goffa **Clwb Ffermwyr Ifanc** - Ymarfer
Eisteddfod
- Tabernacl Machynlleth**
10-3.30 - Sêl Llyfrau
Cymraeg (at Apêl y Taneri)
- Neuadd Goffa: 6-7.30 -
Cylch Meithrin Tal-y-bont
Noson Calangaeaf
Clwb Ffermwyr Ifanc:
Eisteddfod y Sir (Pafiliwn
Bontrhydfendigaid)
- Tachwedd**
2-3 Ymweliad **Clwb Gwawr y Pennau** â Henffordd
- Bethel 10** - Gweinidog
Nasareth 10 - Bugail (C)
Rehoboth 5 - Bugail
Eglwys Dewi Sant 11 -
Cymun Bendigaidd
- Bethel 2** - Parch Andrew
Lenny
Nasareth
Rehoboth 10 - Bugail (C)
Neuadd Goffa: 10.45 - **Sul y Cofiant**
- Festri Capel Reheboth,
Taliesin 2yp: **Cymdeithas y Chworiydd** - Lyn Ebenezer
'Hen hud y wlad'
- Neuadd Goffa: **Ffair y Neuadd** 2yp

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn nyddiadur y mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832442) o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o Papur Pawb.

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Rebecca ac Arthur, gyda Ceri'n dylunio. Golygyddion mis Tachwedd fydd Geraint Evans (post@garnwen.org.uk 832473) a Geraint a Sian Pugh (geraintowen@gmail.com 832433), gyda Iolo'n dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 2 Tachwedd, a bydd y papur ar werth ar 9 Tachwedd.

Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

Hefyd:

- **Papur Pawb Sain** – i'r rhai sydd â golwg diffygiol
- **Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal**
- **Ôl rifynnau'r papur**

Noddwyd y wefan hon gan:
Anthony Motors
Volkswagen



papurpawb.com

Pobl a Phethe

Croeso

Mae Nain a Taid Maesmeillion, Tal-y-bont yn falch o groesawu Mari Berain a Cristoffer Wiliam i'w teulu. Efeilliaid bach Catrin a Darren yng Nghaerdydd.

Dyweddiad

Llongyfarchiadau i Eifion Jenkins, Cerrig-caranau, Tal-y-bont a Sara Downes o Langeitho ar eu dyweddiad.

Diolch

Dymuna Tegwen Jones, Glas Coed, Tal-y-bont ddiolch o galon i bawb am y cyfarchion niferus dderbyniodd yn ddiweddar mewn cardiau, galwadau ffôn a blodau pan fu'n dathlu ei phenblwydd arbennig yn wyth deg oed.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Medi a Harry James, Llanerch, Tal-y-bont ar enedigaeth eu hail wyres, Leusa Medi, yn ferch i Emsyl a Rhodri Llwyd yng Nghaerdydd.

Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Glyn Jenkins, Bwthyn-y-Fron, Tal-y-bont ar ei swydd newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Cydymdeimlad

Trist yw cofnodi marwolaeth Daphne Watson, Bwthyn Rhosyn Gwylt, Bont-goch ar 4 Medi yn Ysbyty Bronglais, ac estynnir ein cydymdeimlad dyfnaf gyda'i theulu. Cynhaliwyd ei gwasanaeth coffa yn Amlogsgfa Aberystwyth ar 16 Medi.

Mae Liz Hughes, Llys Dewi, Tal-y-bont wedi colli ei mam yn ddiweddar. Roedd yn fam-yng-nghyfraith i Keith, ac yn famgu i Ryan, Amy a Jodie. Cydymdeimlwn â'r teulu gyfan.

Nodwn hefyd farwolaeth tad Nicky Thomas, Dôl Pistyll. Cydymdeimlwn â hi, ei gŵr Michael, â'r plant Katie a Sion.

Croeso

Mae Arwel Williams, Pennaeth Cerddoriaeth, Ysgol Penweddig wedi symud i fyw i 1, James Street, Tal-y-bont. Croeso mawr i'r pentref!

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Alun a Janet Jones, Llwynglas, Tal-y-bont ar ddod yn ddadcu a mamgu am y tro cyntaf. Ganed mab i Dylan a Ceri Jones, Penrhynoch ar 8 Hydref sef Osian Gwern.

Damwain

Cafodd Catherine Davies, Llwynnadda (a Fferyllfa Tal-y-bont) anaf ar ei choes dros yr haf. Dymunwn adferiad buan iddi.

Sêr y sgrîn fach

Braf oedd gweld Miriam Davies o Ysgol Tal-y-bont, a Steffan Nutting, Tŷ Hen Henllys, Tal-y-bont yn ymddangos ar raglen deledu 'Teulu Bach Nantoe'r' yn ddiweddar. 'Unigryw', sef cwmni teledu Catrin M.S. Davies, Simne Wen, Tal-y-bont gynhyrchoedd y rhaglen.

Babi newydd

Llongyfarchiadau i Rheinallt Lewis a Sarah Birch ar enedigaeth merch fach. Mae Rheinallt yn fab i Mair a Richard Lewis, Gweinidog Bethel.

Penblwydd Arbennig

Penblwydd hapus iawn i Dilwyn James, Cwmudw, Tal-y-bont sy'n dathlu penblwydd arbennig.

Casgliad Bâd Achub

Mae Eirlys a Sadie, Maes-y-deri wedi llwyddo i gasglu £43.39 o amgylch y pentref yn Nhal-y-bont.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Raymond a Josie Smith, Dyfi Villa, Tre Taliesin, a ddaeth yn dadcu a mamgu eto ar 8 Medi, pan anwyd Ava Mair i Phil a Naomi, yn chwaer fach i Danielle a Georgia.

Llongfarchiadau yn ogystal i Alaw Lewis, Garth, Tal-y-bont; cafodd ei chwmni trefnu priodasau, sef Priodasau Calon, ei enwebu'n ddiweddar ar gyfer Gwobrau Priodas Cenedlaethol Cymru. Pob lwc iddi hi ac i'r cwmni.

Prif Ferch

Llongyfarchiadau i Elan Elidir, Simne Wen, Tal-y-bont ar gael ei dewis yn ddirprwy brif-ferch yn Ysgol Penweddig

Cywiriad

Hoffem gywiro cymgymeriad yn rhifyn diwethaf Papur Pawb. Yn Ysgol *Uwchradd* Ystalyfera y mae Kirsty Evans, Elgar, Tal-y-bont wedi cael swydd fel athrawes chwaraeon, nid yn yr ysgol gynradd.

Cymdeithas y Chwiorydd

Ar gychwyn tymor newydd, estynnodd y Llywydd, Eiriona Metcalfe, groeso i'r aelodau i'r cyfarfod yn festri Capel Rehoboth, Taliesin, ar brynhawn Mawrth, 10 Medi. Cyfeiriodd at un o'n cyn-aelodau, Enid Williams, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed ar 21 Medi, a hefyd dymunodd ben-blwydd hapus i Tegwen Jones a oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig ar 12 Medi.

Ein gwraig wadd am y prynhawn oedd Mrs Megan Hayes, Aberaeron. Cafodd Megan ei geni a'i magu yn Llundain gan i'w rhieni ymfudo yno o dde sir Aberteifi, a chawsom ganddi hanes ei magwraeth yn y ddinas. Cychwynnodd ei rhieni eu bywyd priodasol yn Llundain drwy fynd i gyflogaeth gyda theuluoedd Cymraeg y ddinas cyn iddynt lwyddo i rentu busnes yn Shoreditch i ddechrau, yna symud i Clapham ac wedyn i Richmond.

Codwyd Megan ar aelwyd uniaith Gymraeg, lle'r oedd y morynion yn ogystal yn hanu o Geredigion. Annibynwyr oedd teulu Megan a chafodd hithau ei bedyddio yng nghapel King's Cross pan oedd Elfed yn weinidog yno. Drwy gyfrwng sleidiau gwelwyd lluniau o rai o siopau'r Cymry yn Llundain pan oeddent yn gwerthu a dosbarthu llaeth ar hyd strydoedd y ddinas. Roedd pawb wedi mwynhau clywed hanes Megan a'r Cymry eraill gan fod bron pob un a oedd yn bresennol gyda pherthynas neu deulu a fu'n byw yn Llundain. Talwyd y diolchiadau gan Ann Jenkins. Myfanwy Rowlands a Mai Leeding oedd yng ngofal y te.



Gweithdy ysgrifennu barddoniaeth gyda Gwyneth Lewis

Gŵyl Lenyddol

Cynhaliwyd gŵyl lenyddol yn canolbwyntio ar R.S. Thomas yn Eglwysfach rhwng y 6ed a'r 8fed o Fedi, i nodi canmlwyddiant geni'r bardd eleni.

Bu Gwyneth Lewis yn cynnal gweithdy ysgrifennu barddoniaeth ac yn darllen ei barddoniaeth yn Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach ar y dydd Gwener. Bore drannoeth, cafwyd sesiwn gyda Tony Brown o Brifysgol Bangor yn trafod y gyfrol *Uncollected Poems* a olygwyd ganddo ar y cyd â Jason Walford Davies.

Yn y prynhawn, arweiniodd Damian Walford Davies daith yng ngwarchodfa adar Ynys-hir. A gyda'r nos cawsom berfformiad gan y Conran Poetry Chorus a Sioned Webb.

Fore Sul cafwyd taith i fedd Taliesin yng nghwmni Dr Gwilym Morus, cyn clywed Dr Lionel Madden yn trafod y bardd a'r nofelydd Thomas Love Peacock.

Ac i offen yr ŵyl, cafwyd derbyniad yng Nghastell Glandyfi. Roedd yr ŵyl yn llwyddiant mawr - diolch i bawb am eu cefnogaeth.



Y criw aeth ar y daith gerdded i Fedd Taliesin gyda Dr Gwilym Morus



Cant!

Mrs Enid Williams gyda'i nith Mrs Gillian Thomas

Llongyfarchiadau mawr i Mrs Enid Williams, gynt o Daliesin, sy'n byw erbyn hyn yng nghartref Tregerddan, Bow Street ar ddathlu ei phenblwydd yn 100 oed ar 21 Medi.

Pedwar Cant!

Dyma lun o Mrs Williams, gyda'i chyd-breswylwyr yn y cartref, oll o ardal Taliesin a Thal-y-bont, ac oll dros eu 100 mlwydd oed. Cyfanswm eu hoedrannau yw 403!




O'r chwith i'r dde: Aurora Wellings, Rose Evans, Enid Williams a Catherine (Peggy) Evans

Ysgol Llangynfelyn



Pêl-droed 5-bob ochr yr Urdd



Plas Arswyd y Llyfrgell



Tim Plismona



Tal-y-bont Tarannau

Enillwyr gŵyl pêl-droed Mark Smiley, Penparcau eleni oedd Tal-y-bont Tarannau dan 7. Enillodd y tîm bron pob gêm i gyrraedd y ffeinal. Roedd y gêm derfynol yn un agos iawn ond llwyddwyd i guro'r Penrhynoch Devils 1-0 i godi'r darian. Dechrau gwych i'r tymor!

Ysgol Llangynfelyn

Pêl-droed 5-bob ochr yr Urdd

Aeth chwech o fechgyn hŷn yr ysgol i Ganolfan Hamdden Plascrug i gymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl-droed 5-bob ochr yr Urdd i ysgolion gyda llai na 50 o blant. Chwaraeodd y bechgyn yn dda iawn er nad aethon nhw ymlaen i'r rownd nesaf.

Plas Arswyd y Llyfrgell

Cymrodd amryw o blant rhan yng nghynllun darllen gwyliau haf y llyfrgell. Casglon nhw sticeri a gwobrau bychan bob tro iddynt fenthgyllyfrau o'r llyfrgell yn Aberystwyth a Machynlleth. Daeth rhai o'r plant â'u medalau a'u tystysgrifau i'r ysgol i ddangos i weddill y plant. Da iawn chi am ddarllen gymaint!

Tîm Plismona

Llongyfarchiadau i Zeb Rowell am offen ei rôl fel rhan o'r Tîm Plismona. Cafwyd seremoni arbennig i holl aelodau'r tîm yng Nghae'r Odyn, Borth cyn gwyliau'r haf. Cyflwynwyd tystysgrif a bathodyn arbennig i Zeb.

Ffarwelio

Rydym wedi ffarwelio â Shelley Foulkes ein glanhawraig sydd wedi gorffen gyda ni ar ôl ei chyfnod mamolaeth. Croesawn Lisa Roberts nôl atom fel ein glanhawraig newydd. Mae Lisa eisoes yn gweithio gyda ni yn gweini'r cinio ysgol.

Gwasanaeth Diolchgarwch

Mae croeso cynnes i bawb ymuno â ni yn yr ysgol ar gyfer ein Gwasanaeth Diolchgarwch ar brynhawn Dydd Iau Hydref 24ain am 2.30yp. Croeso cynnes i bawb!



Bore coffi Eglwys Dewi Sant

Cynhaliwyd bore coffi yn y Neuadd Goffa i godi arian at Eglwys Dewi Sant ar ddydd Sadwrn 28 Medi. Roedd nifer o stondinau diddorol, raffl a chyfle i fwynhau paned a sgwrs ymhlith ffrindiau. Gan gynnwys rhoddion, codwyd £505.

Hoffem ddiolch i bawb a gefnogodd ac a gyfrannodd mewn modd mor hael. Rhaid nodi, gyda diolch, y gefnogaeth a dderbyniom unwaith eto gan eglwysi Llandre a Llangorwen.



Gill Jones, Trysorydd Eglwys Dewi Sant



Ymweld â Malawi

Rwyf wrth fy modd yn teithio ac wedi bod digon lwcus i ymweld â sawl gwlad a chyfandir ddiddorol. Doedd dim rhaid gofyn ddwywaith felly pan gefais gynnig i fynd i Affrica fel rhan o gynllun Cysylltu Dosbarthiadau y Cyngor Prydeinig ar ran Ysgol Tal-y-bont.

Roeddwn wedi dysgu llawer am y wlad pan ddaeth Davie Sande i aros gyda mi fel rhan o'r bartneriaeth ym mis Mai ac wedi holi am 'dips' gan Miss Manon Rhys a fu draw yn Nkope y llynedd. Ro'n i'n ymwybodol felly na fyddai'n wythnos hawdd. Ro'n i hefyd yn deall yn iawn fy mod yn ymweld ag un o'r gwledydd lleiaf datblygiedig yn y byd sydd â disgywliad bywyd isel iawn a thlodi anhygoel. Ond y gwir yw, doedd dim un person, llyfr na rhaglen am Affrica'n mynd i allu fy mharatoi at y daith anhygoel hon. Roedd yn rhaid byw'r profiad.

I ddechrau, allwch chi fyth cyfleu mewn llyfr y caredigrwydd twymgalon a brofwch ble bynnag yr ewch ym Malawi. Roedd pobl yn codi llaw a galw draw gyda gwên lydan am sgwrs bob awr o'r dydd. Pob un yn holi'n bryderus sut oeddwn i'n ymdopi â'r gwres llethol. Does ryfedd fod pobl yn cyfeirio at Malawi fel 'Calon gynnes Affrica'. Does ganddyn nhw fawr ddim, ond maent yn fodlon rhannu'r cyfan â chi. Roedd y gymuned wedi cyfrannu'u harian prin er mwyn gallu fy mwydo am yr wythnos - cig gafr y noson gyntaf. Tipyn o her i gyn-lysieuwraig!

Yn ail, roedd hi'n brofiad unigryw ac amhrisiadwy cael aros mewn pentref diarffordd gydag Agness (a fu draw yn Nhal-y-bont llynedd). Ro'n i'n aros mewn un o'r ddau dy oedd â thrydan. Er hynny roedd hi'n brofiad golchi yn y bath (bwced) a defnyddio'r tŷ bach cynhenid! Cefais fodd i fyw wrth gael fy nhywys o gwmpas y pentref gan weld mwncïod ac esgryn hipos a chlywed fod crocodeils yn byw gerllaw! Gydâ'r nos roedd y golau euraidd isel yn taflu cysgodion hir ar y menwod prysur yn cario'r tybiau dŵr ar eu pennau a'r babanod tawel ufudd mewn siol ar eu cefnau.

Roedd hi hefyd yn brofiad anhygoel gwylïo'r athrawon yn dysgu eu dosbarthiadau gorlawn. Roedd hyd at 100 ymhob dosbarth yn eistedd ar lawr ac yn rhannu llyfrau testun rhwng 10. Maent yn cynnal gwersi Mathemateg a Iaith (Saesneg a Chichawe) fel ni yn ddyddiol ond hefyd yn dysgu Amaeth, Sgiliau Bywyd a Chelf 'Mynegiannol' (gwelais ddarnau o gelf gan blant wedi'u creu o beth bynnag oedd wrth law...pen hwyaden, croen mwnci ac ati). Ac roedd y dawnsio Affricanaidd yn wefreiddiol a'r canu yn y gwasanaeth yn yr eglwys yn gyrru iâs lawr eich cefn. (Mae plant Tal-y-bont eisoes wedi bod yn dysgu creu dawns Affricanaidd er i fi ddod nôl!)

Cawsom seremoni arbennig ar fy niwrnod olaf i gyflwyno rhoddion i'r ysgol. Diolch i bawb gyfrannodd yn hael iawn a chodi £150. Roedd hi'n hyfryd clywed bonllefau gan y plant pan welsont bêl droed yn rhan o'r rhoddion!

Roedd gadael y pentref yn deimlad cymysgld. Ro'n i'n hynod falch mod i ar fy ffordd adre i weld fy nheulu a mod i'n dychwelyd i fywyd lle roedd sinc a thap a thrydan a thŷ bach...ond eto roedd hi'n anodd peidio colli deigrin. Roedd hi'n anodd ffarwelio â'r holl ffrindiau newydd a phob un yn holi pryd fydden i'n dychwelyd...gan wybod yn iawn na fydden ni'n gweld ein gilydd eto.

Llio Rhys

Shwmae Su'mae!

Rho gynnig arni! Give it a go!

15 Hydref - October 15

Dydd Mawrth, 15 Hydref fydd y tro cyntaf i ni bobl Cymru ddathlu **Diwrnod Shwmae Su'mae!** gan ddechrau pob sgwrs gyda shwmae, su'mae neu shwdi.

Nod y diwrnod yw dangos fod y Gymraeg yn perthyn i bawb ac y gall bob un ohonom ni ddefnyddio'r Gymraeg sydd gennym drwy'r flwyddyn – yn y siop, y garej, y ganolfan hamdden, yn y gwaith, gyda ffrindiau – ymhob man!

Dyma gyfle i wneud y Gymraeg yn llawer mwy amlwg a chyhoeddus – a lle well i ddechrau na gyda'r ffordd ry'n ni'n cyfarch ein gilydd? Yn ogystal, mi fydd yn gyfle i gefnogi ac annog ymdrechion pawb sydd wrthi'n dysgu'r Gymraeg.

Dim ond dechrau'r daith yw Diwrnod Shwmae Su'mae. Y bwriad yw y bydd yn arwain at gynnydd yn ein defnydd o'r Gymraeg yn ein bywydau bob dydd. Cyn pen dim bydd un shwmae yn troi'n gannoedd ac yn filoedd o gyfarchion a hynny drwy gydol y flwyddyn.

Gennym ni, bobl Cymru, mae'r pŵer i gadw'r Gymraeg yn fyw a gallwn fod yn rhan o'r daith o'r eiliad y byddwn yn dweud shwmae neu su'mae ar ddechrau sgwrs.

Beth am drefnu rhywbeth yn eich ysgol, gweithle neu glwb?

Am ragor o wybodaeth a rhestr llawn o ddigwyddiadau yn ein ardal ni, cysylltwch â Gaynor Jones, 07854 171165 / 01554 833902

Facebook:

<https://www.facebook.com/events/208697465950732/?fref=ts>

Trydar: @shwmaesumae



#shwmae

Shwmae!

Hydref 15, 2013

fydd y tro cyntaf inni ddathlu Diwrnod Shwmae Su'mae!
gan ddechrau pob sgwrs yn Gymraeg.



MID WALES STORAGE

Storfa Canolbarth Cymru

STORFA DODREFN	STORFA FUSNES ARCHIFAU
STORFA I FYFYRWYR	PACEDU

DIOGELWCH BT REDCARE 24 AWR • CCTV
WEDI GYNHESU • CIWBICLAU £10 YR WYTHNOS

www.midwalesstorage.co.uk
Heol y Doll, Machynlleth, SY20 8BQ
Ffôn: 01654 703592

Banc-y-llan

Fel yr addewais yn rhifyn Mehefin dyma droi eto at lyfr gwerthfawr Hugh Rees sy'n adrodd hanes plwyf Ysgubor-y-Coed, a dechrau gydag enw'r pentref - Banc-y-llan - cyn ei newid yn Eglwys-fach:

Yn wreiddiol enw'r fangre
Yn siŵr yw "Banc-y-llan"
A'r enw hwn ddylasid
Ei alw ym mhob man...

Wedyn mae'n esbonio'r enw newydd:

Nid bach o ran maintiol
Yw'r ystyr yma cawn,
Ond cangen oedd yr "Eglwys"
O Langynfelyn draw,
Bob pryd sefydlid cangen
Hi fydded fawr neu fach
Bob pryd fe elwir honno
Wrth enw "Eglwysfach"

Dylid cofio fod Eglwys/Capel-Edwin yn bod ganrifoedd ynghynt, wedi'i sefydlu gan Edwin, Brenin Northumbria, wedi iddo groesi'r afon Ddyfi, ennill brwydr yn Llanfihangel Genau'r Glyn, ac ymsefydlu wedyn lle mae fferm Ynys Edwin, adeiladu eglwys/capel, a'i alw'n Capel Edwin.

O gofio mai'r lliwgar Ddr. William Price, Llantrisant, oedd y cyntaf i losgi corff marw mae Hugh Rees yn trafod y pwnc mewn nifer o benillion:

Ar ôl i rywun farw
Fe'i llosgid gyda brys
Ar ben y garnedd gerrig
Medd f'ewyrth Syr John Rhys.
Rhain ydoedd hen ddaliadau
Ein hen gyn-deidiau gynt,
Oedd llosgi'r corff yn lludw
A'i daflu gyda'r gwynt.

Os eir i Ystradeinion
I gael Pantwenty mawr
Ceir gweled ôl hen garnedd
Sydd heddiw ar y llawr.
Wrth goeden fawr griafol
Mae cerrig mawrion trwm
Rhyw ddeugain llath neu ragor
O gapel bach y cwm.

W.J.E.

argraffu da
am bris da



ylLolfa holwch Paul am bris ar paul@yloffa.com
01970 832 304 www.yloffa.com



Aelodau Rehoboth y tu allan i Eglwys Sant Dunawd, Bangor Is-y-coed, gyda'u tywysydd, Aled Lewis Evans

Taith Flynyddol Capel Rehoboth

Ardal Wrecsam oedd cyrchfan taith Capel Rehoboth eleni, a hynny ar ddydd Sadwrn braf, 14 Medi. Cyrhaeddwyd Wrecsam am 11 o'r gloch i gwrdd â'n tywysydd am y dydd, Aled Lewis Evans.

Yn gyntaf, aethom i'r Amgueddfa i weld Mantell Aur yr Wyddgrug sydd wedi cael ei harddangos yno yn ystod yr haf. Mantell aur seremonïol unigryw a wnaed tua 3,700 o flynyddoedd yn ôl, ar ddechrau'r Oes Efydd, yw Mantell yr Wyddgrug, ac fe'i darganfuwyd mewn bedd wedi'i hamgylchynu gan gerrig yn 1833. Hwn oedd y diwrnod olaf i'w gweld yn Wrecsam cyn iddi gael ei dychwelyd i'r Amgueddfa Brydeinig yn Llundain felly roedd pob un wrth ei fodd i gael y cyfle i'w gweld.

Ymlaen wedyn i weld Eglwys San Silin. Mae tŵr yr Eglwys yn cynnwys deg o glychau ac yn un o saith rhyfeddod Cymru. Mae llawer o nodweddion diddorol y tu mewn i'r Eglwys hefyd, yn cynnwys y ddarlennfa ar ffurf eryr pres a roddwyd i'r Eglwys yn 1524, a'r to sy'n cynnwys 16 o angylion yn canu neu'n canu offeryn.

Cafwyd bwyd hyfryd ym mwyty Siop Fferm Bellis yn Holt cyn parhau â'r daith. Arhoswyd am ennid i weld Cofeb Trychineb Gresfordd, sef hen olwyn o'r pwll glo lle lladdwyd 266 o ddynion a bechgyn ym mis Medi 1934. Codwyd y Gofeb yn 1982. Yna aethom i Fangor Is-y-coed i weld Eglwys hynafol Sant Dunawd a adeiladwyd ar safle hen fynachlog, gyda'r gangell oddi mewn i'r Eglwys yn dyddio'n ôl i 1300. Yng nghanolfan yr ymwelwyr gellir clywed mynach (gyda llais Aled) yn adrodd hanes bywyd ym Mangor Is-y-coed yn y seithfed ganrif.

Teithiwyd yn ôl i Wrecsam drwy fynd heibio Rhosllannerchrugog, pentref a dyfodd yn ystod y ddeunawfed ganrif yn sgil y gweithfeydd glo lleol. Gwelwyd y 'Stiwr' a godwyd gan arian prin y mwynwyr yn 1926, ac fe'i defnyddir heddiw fel canolfan i gynnal cyngherddau a lle i'r gymuned gymdeithasu. Codwyd nifer o enwogion yn y Rhos, a gwelwyd Arwelfa, sef cartref y cyfansoddwr, Arwel Hughes. Mae yno nifer o gapeli hardd, ac mae'r llinell 'Beibl a rhaw i bobl y Rhos' yn dangos pwysigrwydd y capeli a'r gwaith glo i drefadaeth y pentref.

Wedi cyrraedd yn ôl i Wrecsam, ffarwelwyd ag Aled a diolchodd Bob Williams yn gynnes iddo am ddiwrnod arbennig iawn. Arhoswyd yn Llangollen am ychydig, yna teithio trwy Tywyn ac Aberdyfi i gyrraedd gwesty Glan-yr-afon ym Mhennal i gael pryd o fwyd ardderchog i gloi'r diwrnod.

Diolch yn fawr i Mai a John Leeding am drefnu'r daith, ac i John am yrru'r bws.

Clwb Gwawr y Pennau

Y mis diwethaf, aeth criw ohonom i'r theatr yng Nghanolfan y Celfyddydau i weld dwy ddrama gan Theatr Bara Caws. Drama newydd oedd un sef 'Cyfaill' yn archwilio un o'r cyfnodau mwyaf cythryblus ym mywyd Kate Roberts, pan fu farw ei gŵr, Morris. Yr ail ddrama oedd addasiad newydd o 'Te yn y Grug' gan Kate Roberts. Mwynhaodd pawb y noson yn fawr iawn yn enwedig yr ail ddrama.

Y mis nesaf byddwn yn mynd ar ymweliad dros nos i Henffordd. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'n gweithgareddau cysylltwch â'r cydlynnydd, Rhian Nelves: rhian.nelves@btinternet.com am ragor o wybodaeth.

Elin Jones AC – O'r Cynulliad

Mewn colofn ddiweddar, mi soniais am y gwaith oedd yn mynd rhag blaen i wella cysylltiadau band-llydan, sydd mor ddiffygiol mewn nifer o ardaloedd yng Ngheredigion. Bydd hon yn frwydr hir, ond caf nodi un darn o newyddion da.

Mae'r 'Cynllun Cymorth Band Eang', sy'n caniatáu grantiau o hyd at £1000 i helpu unigolion a busnesau sydd heb fawr o gysylltiad i fuddsoddi mewn band-llydan lloeren neu ateb amgen, am barhau.

Roedd y cynllun gwreiddiol am ddod i ben ddiwedd Medi, ond daw cynllun newydd – gydag enw gwahanol ond bron union yr un telerau – yn ei le. Nodwch fod rhaid cwblhau'r gwaith papur a chael caniatâd y Llywodraeth cyn bwrw ati i gael y cyfarpar, ac mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych ddiddordeb yn hyn.

Mae band-llydan, wrth gwrs, yn hanfodol i nifer o fusnesau, a da oedd dathlu llwyddiant un busnes arloesol sydd wedi'i wreiddio yng Ngheredigion ers y cychwyn cyntaf. Mynychais ŵyl Golwg yn ddiweddar, ac roedd yn wych cael rhannu yn llwyddiant y cylchgrawn, sydd wedi cynnal ei chylchrediad ers chwarter canrif. Rwyf nawr yn derbyn y cylchgrawn ar-lein trwy'r 'Ap' newydd, bob bore dydd lau, sy'n ddefnyddiol iawn pan fyddaf yn y Cynulliad.

Rhaid peidio anghofio, fodd bynnag, am fathau llai modern o gyfathrebu, sydd yr un mor hanfodol i gynnal busnesau a'n safon byw yng nghefn gwlad.

Rwyf wedi bod yn brysur y mis diwethaf gydag ymgyrch yn erbyn cynlluniau Llywodraeth San Steffan i breifateiddio'r Post Brenhinol. Cyhoeddodd y Gweinidog, Vince Cable, y byddai'r preifateiddio'n digwydd cyn y Nadolig yn ôl bob tebyg.

Y pryder yw na fydd perchnogion preifaf newydd wedi ymrwymo i ddarparu'r un gwasanaeth, ac am yr un pris, mewn ardaloedd gwledig a threfol, a gallai arwain at golli swyddi a bygwth ymhellach ddyfodol ein rhwydwaith Swyddfeydd Post.

Rwy'n benderfynol o ymgyrchu dros chwarae teg i ardaloedd fel Ceredigion.



Bistro Gannets

Bwyd a Gwin Da
7 St James Square, Aberystwyth
617164
Ar agor Llun i Sadwrn
12-2 a 6-9.30

Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dyffymygus o'r safon uchaf. Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau. Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA
Ffôn: 01970 871042
Symudol: 07773 846659

Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont

01970 832278 www.davmorgarage.co.uk

Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd nos Lun 30 Medi.

Rhybudd Llifogydd

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i Andrew Irving, Arweinydd Tîm Rheoli Achosion o Llifogydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, a Mick Fothergill ac Arthur Dafis, cynrychiolwyr y 'Floodees', i'r cyfarfod. Amlinellodd Andrew Irving gynlluniau Cyfoeth Naturiol Cymru i rybuddio trigolion pentref Tal-y-bont pan fo lefel y dŵr yn afonydd Leri a Ceulan yn beryglus o uchel. Mae'r sefydliad hefyd yn bwriadu gosod mesurydd glaw ger Plas y Mynydd er mwyn cael rhybudd cynharach o unrhyw berygl.

Balchder Pentrefi

Adroddwyd fod y cyfan o'r gwelliannau, ac eithrio'r hysbysfwrdd cyhoeddus newydd o flaen y Neuadd, bellach wedi eu cwblhau. Diolchwyd i'r Cadeirydd, y Cynghorydd Enoc Jenkins, a'r Cynghorydd Gerwyn Jones am symud dwy o'r hen feinciau o waelod y pentref a'u hailosod ar bwys y ddwy gysgodfan bysiau ym mhen uchaf pentref. Da gweld bod defnydd helaeth yn cael ei wneud o'r meinciau i gyd. Penderfynwyd atgyweirio'r hen fainc sydd ar ôl ar y Patshyn Glas cyn ei hadleoli yn Bontgoch. Dosbarthwyd copiâu drafft o gyfrifon Project Balchder Pentrefi i'r aelodau, ac adroddwyd y bydd y Cyngor wedi llwyddo i brynu 5 mainc cyhoeddus ar gyfer y Patshyn Glas, cysgodfan newydd i Faes-y-deri, a hysbysfwrdd newydd i'w osod o flaen y Neuadd – sef gwerth £10,000 o nwyddau – heb wario dim o gronfâr Cyngor, a hynny trwy gymynrodd Dr Iestyn Watkin, llafur gwirfoddol a grant y project Balchder Pentrefi.

Parc Chwarae Bont-goch

Adroddodd y Cynghorydd Ellen ap Gwynn fod brwdfrydedd mawr ymhlith trigolion Bontgoch i'r cynllun i sefydlu parc chwarae yn y pentref. Daeth nifer dda i'r cyfarfod ar 1 Awst, a chafwyd trafodaeth frwd. Pan geir hawl ar y llain tir, ac addewidion am offer chwarae, byddant yn troi at y Cyngor i ofyn iddynt dderbyn cyfrifoldeb am gostau yswirio a chostau cynnal a chadw'r maes chwarae.

Patshyn Plant Maes-y-deri

Bydd y Cyngor Sir yn cynnal ymchwiliad cyhoeddus ar 16 a 17 Hydref 2013 yn Neuadd Goffa Tal-y-bont i ystyried tystiolaeth sy'n ymwneud â chais i gofrestru'r tir a adwaenir fel Patshyn Plant Maes-y-deri yn faes pentrefol dan Ddeddf Tiroedd Comin 2006. Cytunwyd i ofyn i'r Cynghorydd Gerwyn Jones gyflwyno tystiolaeth ar ran y Cyngor Cymuned.

Cynllunio

Trafodwyd cais amlinellol i godi 11 uned tai newydd ar gae hen fart Tal-y-bont (rhwyng Y Dderwen a Dan y Dderwen). Cytunwyd i anfon nifer o sylwadau at yr Awdurdod Cynllunio parthed y cais: (i) 10 uned a glustnodwyd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer y safle hwn, nid 11; (ii) mynegwyd pryder ynghylch y cynnydd anorod yn y llif traffig ar y ffordd gul rhwyng Brynhyfryd a mynedfa newydd y datblygiad tai; (iii) mae trigolion gwaelod y pentref yn pryderu'n fawr am allu'r system garthffisiaeth i ddelio â datblygiadau pellach; (iv) mae llai nag 20% o'r unedau wedi eu clustnodi fel tai fforddiadwy, er i arolwg diweddar ddangos bod galw mawr am fwy o dai fforddiadwy ymhlith trigolion lleol. Os derbynir y datblygiad gan y Cyngor Sir, teimlai'r Cynghorwyr ei bod yn bwysig nad yw'r tai'n cael eu codi ar yr un pryd, i roi gwell cyfle i'r preswylwyr newydd ymdoddi i'r gymuned.

Golau Stryd

Adroddwyd fod y golau stryd ar bwys yr hen ysgol yn wan iawn. Cytunwyd i dynnu sylw'r Cyngor at hyn.

Arwydd Ffordd

Ymddengys fod yr arwydd newydd a godwyd yn ddiweddar ym Mwlchgarreg i ddynodi'r ffordd i Dal-y-bont ac i Bonterwyd wedi malurio. Cytunwyd i dynnu sylw'r Adran Prifffyrdd at hyn.

Ffordd Cwm Ceulan

Adroddwyd fod y gwteri ar ffordd Cwm Ceulan, gyferbyn â Charregcadwgan, mewn cyflwr gwael unwaith yn rhagor. Cytunwyd i dynnu sylw'r Adran Prifffyrdd at hyn.

Ysgol Tal-y-Bont

Nofio

Llongyfarchiadau mawr i Nia Benham am gystadlu mor frwd ac ennill 4 medal mewn gala nofio ddiweddar. Mae Nia'n cael gwersi rheolaidd ac mae'n amlwg fod yr holl ymarfer wedi talu ar ei ganfed. Pob hwyl i ti Nia.



Nia Benham

Ymweliad Pêl-droediwr

Yn ystod mis Medi, croesawyd Stuart Jones, un o chwaraewyr tîm pêl-droed Aberystwyth i'r ysgol. Mae Stuart wedi chwarae'n llawn amser dros Abertawe a Llanelli, ond erbyn hyn mae'n cyfuno chwarae gyda bod yn Swyddog Datblygu'r Clwb Lleol. Mae wedi chwarae dros Gymru dan 21, dros y tîm lled-broffesiynol ac wedi chwarae'n aml yng nghystadleuthau Ewrop. Daeth Stuart i'r ysgol i ateb cwestiynau gan y plant am ein thema bresennol sef Pencampwyr. Roedd hi'n ddiddorol iawn clywed am fywyd pêl-droediwr yn Uwch-gynghair Cymru a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Stuart am fod mor barod i'n cynorthwyo. Pob lwc i Stuart ac i Aberystwyth am weddill y tymor.

Hanes Ysgol Tal-y-bont

Roedd hi'n ddiddorol iawn i ddarllen yn y wasg leol am ddigwyddiadau diweddar mewn rhai o ysgolion cynradd y sir wrth iddyn nhw ddathlu dyddiad agor yr ysgolion hynny. Rhaid cofio fod ysgol yn Nhal-y-bont ers blyneddoddd lawer hefyd.

Ceir hanes sefydlu'r ysgol yn fanwl iawn mewn erthygl gan Ithel Jones, cyn-brifathro'r ysgol, yn 'Ein Canrif'. Prynowyd y tir oddi wrth deulu Plas Gogerddan yn 1841. Talwyd £19 am y tir a £113 15s 6c am adeilad i fod yn ysgoldy ar gyfer 108 o blant.

Agorwyd yr ysgol yn 1843 – 170 mlynedd yn ôl i eleni. Yn y cyfnod hwnnw, roedd arian yn brin a doedd y rhieni ddim yn gallu fforddio danfon eu plant i'r ysgol ac roedd cael plant i ddod i'r ysgol yn gyson o gwbl yn broblem fawr. Ond pan fyddai pawb yn mynychu'r ysgol roedd cael lle i bawb yn dipyn o ben tost hefyd. Ceir nodyn diddorol yn yr erthygl yn cyfeirio at y cwyno oedd ar y pryd oherwydd bod angladdau yng Nghapel Bethel yn tarfu ar y dosbarthiadau!

Mae adroddiad yn Llyfrau Gleision 1846 yn sôn fod yr ystafell ddosbarth yn olau ac yn cynnwys desg i'r athro, deg desg hir a mainc ar gyfer pob plentyn. Roedd 2 le tân yn yr ystafell ond ar Dachwedd 23, diwrnod creu'r adroddiad, doedd dim un o'r tanau wedi eu cynnau. Tybed beth fyddai ymateb staff a phlant heddiw i fod heb wres ym mis Tachwedd!

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553

K Hughes

Plymio a Gwresogi

Gosod a Theilio Ystafelloedd Ymolchi
Gwasanaeth Boeler Olew

01970 832129
07761 917235

loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.
Pris £5.00
Cysylltwch a
Sue Jones-Davies
01970 624658

Afiaith
Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Proffesiynol
Prydlon • Personol

Martin Davis
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH
Powys SY20 8JG Cymru
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

Ysgol Tal-y-Bont



Ymweliad Pêl-droediwr Stuart Jones, un o chwaraewyr tîm pêl-droed Aberystwyth



Hanes Ysgol Tal-y-bont – Athrawon yr ysgol ar ddechrau'r 20fed ganrif

LLUN O'R ARCHIF



Rydym yn parhau i weithio ar y prosiect sganio hen luniau Papur Pawb. Beth am ein cynorthwyo? Pwy yw rhain a beth oedd yr achlysur? Atebion i'r golygydd cyffredinol os gwelwch yn dda.



Masgot Wrecsam

Miriam Llwyd oedd y masgot a arweiniodd y tîm allan ar gyfer y gêm 'derby' fawr rhwng Wrecsam a Chaer ar ddydd Sadwrn 31 o Awst ar y Cae Ras! Yn anffodus colli oedd hanes Wrecsam ond cafodd Miriam ddiwrnod wrth ei bodd yn cyfarfod y chwaraewyr a chael 'tour' o'r Cae Ras. Roedd Tad Miriam wrth ei fodd hefyd!! Dyma lun ohoni gyda'i hoff chwaraewr Mark 'The Beast' Creighton.

Gwahodd enwebiadau ar gyfer Gwobrau Dewi Sant – pwy fyddwch chi'n eu henwebu?

Mae Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones wedi galw ar bobl o bob cwr o Gymru i enwebu rhywun sydd, yn eu barn nhw, yn haeddu cydnabyddiaeth am eu llwyddiannau eithriadol, wrth i'r broses enwebu ar gyfer y system wobrau newydd agor heddiw.

Mae Gwobrau Dewi Sant yn gynllun unigryw i Gymru, ac yn cydnabod llwyddiannau pob math o bobl, beth bynnag eu cefndir neu broffesiwn.

Bydd y Gwobrau blynyddol yn anrhydeddu pobl sy'n gwneud pethau eithriadol, gan ysbrydoli eraill a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd bywyd pobl Cymru.


Gellir enwebu unrhyw un dan wyth categori, sef:

- Dewrder
- Dinasyddiaeth
- Diwylliant
- Menter
- Arloesedd a Thechnoleg
- Chwaraeon
- Rhyngwladol
- Person ifanc

Hefyd mae nawfed gwobr, sef Gwobr Arbennig Prif Weinidog Cymru. Nid oes modd enwebu pobl ar gyfer y wobr hon, a'r Prif Weinidog ei hun fydd yn dewis yr enillydd.

Gellir enwebu drwy lenwi ffurflen ar-lein neu lawrlwytho templed o www.cymru.gov.uk/gwobraudewisant. Y dyddiad cau ar gyfer enwebiadau yw Tachwedd 5ed 2013.

Cyhoeddir y rhestr fer ar Ionawr 9fed 2014. Bydd enwau'r enillwyr yn cael eu cyhoeddi yn seremoni Gwobrau Dewi Sant ar Mawrth 13eg 2014 yng Nghaerdydd.



Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch

Tymor 2013 – 2014

Gyda'r tywydd wedi troi, a'r gobaith am haf bach Mihangel yn pylu, daeth yn amser i Ferched y Wawr, Tal-y-bont a'r cylch gychwyn eu tymor newydd o weithgareddau ar Nos Lun, 16 Medi. Braf oedd croesawu dwy aelod newydd i'r gangen.

Croesawodd Fal Jenkins, llywydd y mis, Eleri Roberts a Trefor Pugh i roi noson o 'Alawon, Cerdd a Chân' i ni. Gellir dweud mai 'crème de la crème' y byd cerdd dant ac alawon gwerin yng Nghymru yw Eleri a Trefor gan eu bod yn amlwg a llwyddiannus iawn yn y meysydd cerddorol yma.

Roeddynt wedi paratoi rhaglen o gerddoriaeth amrywiol o wahanol ardaloedd yng Nghymru ar ein cyfer. Cafwyd unawdau a deudawdau cerdd dant, alawon gwerin a chaneuon cyfoes ganddynt.

Roedd lleisiau'r ddau'n asio'n hyfryd a llwyddasant i greu naws arbennig drwy gydol y noson gyda'u dehongliadau cerddorol.

Mawr oedd canmoliaeth pawb oedd yn bresennol a chytunwyd i ni gael dechrau ardderchog i raglen 2013–2014 y gangen.

Byddwn yn cyfarfod nesaf ar 21 Hydref am 7.30 pan fyddwn yn croesawu Shân James atom i roi arddangosfa o addurno cacennau.

Croeso cynnes i aelodau newydd sydd am ymuno â ni.

Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Cyfarfu aelodau'r Cyngor Cymuned ar 9 Medi 2013 yn Llanfach i drafod yr ohebiaeth a dderbyniwyd a'r materion yn codi.

Daeth nifer dda ynghyd i'r cyfarfod cyhoeddus ar 2 Medi i drafod y bwriad i osod llinellau melyn ar y ffordd yn Nhaliesin er mwyn diogelu cerddwyr a gyrwyr. Gobeithir clywed mwy am hyn wedi i'r Asiantaeth Cefnffyrdd gynnal ei archwiliad.

Byddwn yn nodi unrhyw ddatblygiadau pellach ynglŷn â Chynllun Amddiffyn yr Arfordir yn y Borth fel y gallwn gyflwyno barn am gyflwr y ffyrdd a ddefnyddir gan y loriau trwm sy'n cario'r cerrig.

Gofynnwyd i'r Cyngor osod y fainc ger Pencae yn ôl yn ei lle gwreiddiol wedi iddi gael ei symud.

Derbyniwyd cyfarwyddiadau y Weithdrefn Gynllunio gan Gyngor Ceredigion.

Derbyniwyd hysbysiad am gyfarfod y Consortiwm Cludiant Rhanbarthol ar gyfer Canolbarth Cymru sydd i'w gynnal ar 19 Medi, a gobeithia'r Cynghorydd Anwen Haynes fod yn bresennol.

Deallir fod yr heddlu lleol yn cynnal cyfarfod yn wythnosol yn Siop Cynfelyn.

Derbyniwyd gohebiaeth ynglŷn â mynwent Eglwys Llangynfelyn a chytunwyd i'w drosglwyddo i sylw aelodau pwyllgor yr Eglwys.

Cafwyd esboniad diddorol am Safonau Ymddygiad gan aelodau'r Pwyllgor Moeseg a Safonau.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 14 Hydref, am 7.30pm.



**FEDRI DI
FYND HEB Y
DDIOD AM 31
DIWRNOD?**



YMUNA TRWY WWW.DRYJANUARY.ORG.UK/CYMRAEG

I gael gwybod mwy cysyllta ag Alcohol Concern trwy dryjanuary@alcoholconcern.org.uk

Alcohol Concern | Elusen gofrestrig rhif 291705
Suite B5, West Wing, New City Cloisters, 196 Old Street, Llundain, EC1V 9FR

GOLCHDY LLANBADARN

**CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DWFES MAWR
CITS CHWARAEON**

**GERAINT JAMES
Ffôn: 01970 612459
Mob: 07967235687**

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,
Aberystwyth SY23 3SL





Ar Drywydd Hanes Teulu

Ar 14 Hydref 1913, can mlynedd union i'r mis hwn, lladdwyd 439 o lowyr yn nhrychineb glofa Senghennydd. Yn eu plith roedd dau fachgen lleol o Bont-goch - William Edwin Morris a Thomas James Morris.

Ym misoedd olaf y Rhyfel Mawr yn 1918 lladdwyd eu brawd Arthur Morris yn un o frwydrau ffyrnig y Somme. Adroddwyd hanes trist y teulu mewn ysgrif a gyhoeddwyd ym *Mhapur Pawb* ym Mehefin 2007.

Yn ystod mis Medi ymwelodd Arthur Morris, a enwyd ar ôl ei ewythr, â'r ardal, a chafodd gyfle i weld bedd ei dad-cu a'i fam-gu, William ac Elizabeth Morris ym mynwent gyhoeddus Tal-y-bont.

Ar ôl iddynt adael Bont-goch aethant i fyw i Epworth House, Taliesin. Yn ogystal bu Arthur yn crwydro'r ardal i weld llefydd eraill sy'n gysylltiedig â'r teulu, sef Pant-y-celyn, Pant-y-ffin, Y Felin, Elerch House a Nant-ddu, lle ganwyd ei fam-gu. Mae Arthur ei hun wedi ei eni a'i fagu yng Nghaergrawnt, ac yn fab i Llywelyn Morris y brawd ieuengaf. Os ydych am gysylltu gydag ef, dyma ei gyfeiriad. Byddai'n falch i glywed gan unrhyw berthnasau pell, neu bobl sy'n cofio ei deulu yn byw yn yr ardal:

Mr Arthur Morris, 2 Spaldings Lane, Landbeach, Cambridge CB25 9FF MorrisArthur@hotmail.co.uk

Yn y llun gwelir Mr Morris yn cyfarfod â Mr David Elwyn Griffiths y tu allan i Nant-ddu. Mae'r Beibl teuluol yn ei law, a diolch i Mr Griffiths am ei groeso caredig i'w gartref lle cafwyd cyfle pellach i fwrw golwg dros y cofnodion sydd ynddo.

Diolch hefyd i Mrs Carys Briddon am ei chymorth parod i olrhain manylion y plant tra'n ddisgyblion yn Ysgol Elerch, ac i'w rhannu gyda Mr Morris, ac i Gwilym Huws, Clerc Cyngor Ceulanamaesmawr, am ddarparu manylion o gofrestr y fynwent.

REH

Garej Paul Joseph

01970 822220

Pob Math o Geir
Gwasanaeth a Thrsio
Diagnosteg a Weldio
Paratoi a Thrsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre

Gwasanaeth Scania ARTHUR MORGAN



Pencefneg, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion
01239 615085 - 07721 786292

Salon Leri
Pob agwedd o drin
gwalle gan Richard
Pedicure a Manicure
10am-7pm
Llun-Gwener
(01970) 832 674

Y Gair Olaf



Gan i mi dderbyn rhwydd hynt 'caredig' y Golygydd Cyffredinol i draethu ar unrhyw bwnc o'm dewis, penderfynais rannu atgofion o'r tro cyntaf erioed i mi sefyll ar dir Tal-y-bont.

Bore Sadwrn 29 Ebrill 1967 oedd hi, a minnau'n fyfyrwr tlawd yn ffawdheglu o Aberystwyth i weld Eleri ym Mangor. Am unwaith, roedd lwc o'm plaid, oherwydd o fewn dim sgrialodd hen fan flêr i stop ar rîw Penglais a chynigiwyd lifft i mi. A hwythau'n griw o stiwdants Aber, roedd gobaith y cawn i lifft bob cam i Fangor, ond er mawr siom deallais mai aelodau o grŵp roc Y Blew oedden nhw, ar eu ffordd i gynnal eu gig cyntaf un yn Neuadd Goffa Tal-y-bont.

Cwta saith milltir o lifft ges i, felly, ac wrth gerdded yn benisel i gyfeiriad Maes-y-deri gan ailddechrau ffawdheglu, teimlwn na fyddwn i fyth yn llwyddo i ddianc o grafangau Tal-y-bont wrth weld rhes ar ôl rhes o gerbydau'n gwibio heibio heb stopio...

Cyrhaeddais Bangor ymhen yr hir a'r hwyr - ond ychydig feddyliais i ar y pryd y byddwn, o fewn dwy flynedd, yn dychwelyd i Dal-y-bont yn ŵr priod, ac Eleri a minnau'n treulio'r 44 mlynedd nesaf yn magu teulu a gosod ein gwreiddiau'n ddwfn iawn yn naear y fro.

Chwith meddwl y byddaf yn gadael Tal-y-bont unwaith eto ymhen ychydig wythnosau, ond - yn wahanol iawn i'r bore Sadwrn hwnnw yn 1967 - byddaf yn mynd y tro hwn â llond trol o atgofion hapus.

Gwilym Huws



Glanyrafon

Teiars
Aliniad Olwyn
Ecsôsts
Batris
Brêcs
Hongiad
Bar tynnu
Gwasanaeth
MOT



Rhodfa'r Parc

Am y pris gorau a dewis eang o deiars cysylltwch â ni drwy'r wefan neu galwch heibio am gyngor.
Am docyn disgownt ar gyfer alinio eich car ewch i'n gwefan
ALIGNMYCAR.CO.UK

Archebwch eich MOT nesaf ar ein gwefan.

HUWLEWISTYRES.COM Ffôn: 01970 636774



Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A
BUSNESAU

Gofynnwch am bamffled
rhad ac am ddim

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Iwan Jones

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,
Ceredigion SY24 5HJ
helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

CHWARAEON

Tîm Tal-y-bont cyn y gêm yn erbyn Penrhyn-coch



Y Goliau'n Llifo

Am y tro cyntaf ers blynnyddoedd mae blaenwyr Tal-y-bont wedi dechrau darganfod cefn y rhwyd yn rheolaidd y tymor hwn gan sgorio 22 gôl yn y dair gêm gynghrair gyntaf. Mae'n amlwg fod y cyd-reolwyr Anthony Southgate a Marc Richards wedi bod yn brysur yn recriwtio rhai chwaraewyr talentog newydd ond mae'r rhan fwyaf o'r chwaraewyr yn parhau i ddod o ddalgylch Tal-y-bont.

Enillwyd y gêm gyntaf yn rhwydd oddi cartref yn erbyn ail dîm Padarn o 7-1, yna ar dydd Sadwrn canlynol, cafwyd perfformiad gwefreiddiol yn erbyn Penrhyn-coch, gyda

buddugoliaeth o naw gôl i ddim. Sgoriwyd sawl gôl gofiadwy yn y gêm hon. Yna curwyd Borth o 6-2 ar Gae'r Odyn Galch.

Bellach mae'r tîm ar frig tabl Ail Adran Cynghrair Aberystwyth a'r Cylch ond gwaetha'r modd, mewn gêm ryfeddol yn erbyn Bow Street ar Gae'r Piod ar ddiwedd Medi, collwyd y record di-guro mewn gêm gwpan. Ar un adeg yn yr ail hanner roedd Tal-y-bont yn 5-1 ar y blaen, ond wedi hynny daeth tro ar fyd, gyda Bow Street yn sgorio pum gôl i sicrhau buddugoliaeth anhygoel.

Os ydych yn hoffi 'gwylio'r goliau' yna



David Griffiths (rhif 9) yn penio un o'r goliau yn erbyn Penrhyn-coch

ewch draw i Gae'r Odyn Galch i ddilyn Tal-y-bont y tymor hwn.

Tal-y-bont Tarannau dan 8



Tîm pêl-droed Tal-y-bont Tarannau A a Tal-y-bont Tarannau B dan 8 yn eu cit newydd a noddwyd gan Mathew Davies, Plymio a Gwresogi. Diolch hefyd i deulu'r Cunninghams, Glenn Creeber a'r Gist Gymunedol am eu cefnogaeth. Roedd hi'n ddechrau da i'r tymor 12

i'r tîm, wrth iddyn nhw ennill gwyl pêl-droed Mark Smiley ym Mhenparcau (gweler tudalen 4). Bu llwyddiant hefyd i dîm Tal-y-bont dan 9 a Tal-y-bont dan 12 a enillodd trwmament Gary Pugh ar ddechrau mis Medi. Pob lwc i'r timau i gyd yn ystod y tymor.